

TAIR BLYNEDD O'R MORLAN

Ebrill 2005 – Ebrill 2008

(*erthygl a ysgrifennwyd ar achlysur dathlu Morlan yn 5 oed*)

Bu trafodaeth faith ar beth fyddai prif gyfeiriad Morlan. Roedd *Canolfan Cyfiawnder a Heddwch* yn un posibilrwydd neu barhad o'r hyn oedd eisoes yn digwydd ar y safle cyn datblygu'r adnoddau newydd, sef *Canolfan Ieuenticid*. Bu trafodaeth hefyd ar ddisgrifio'r ganolfan fel '*Canolfan Gymdeithasol*' yn unig. Ond yr hyn a ddaeth i'r wyneb yn yr holl drafodaethau oedd yr angen i fod yn fwy penodol ynglŷn â natur unigryw canolfan a dyfodd o fywyd eglwys, a dyna sut y disgrifiwyd y ganolfan yn *Ganolfan Ffydd a Diwylliant*. Yr oedd cyfeiriad o'r fath yn cynnwys pob agwedd o'r ystyriaethau eraill, ond gyda dimensiwn oedd yn cyfannu ac yn clymu pob agwedd o'n bywyd – diwylliant yn ei ystyr eang – a natur gynhwysfawr y Ffydd Gristnogol. Mae'r tair blynedd gyntaf wedi profi fod y dewis wedi bod yr un iawn, ac er na all geiriau fod yn ddigon i ddisgrifio unrhyw beth, mae *gweld* gweithgarwch Morlan yn datblygu wedi dangos yn glir fod yr angen am fan agored, cymunedol, i gydio pob agwedd o'n bywyd, mewn awyrgylch greadigol, yn fawr, os yw'r eglwys am fod yn agored i *bawb*.

CANOLFAN AR WAITH

Fe fyddai rhestru'r gweithgarwch i gyd yn dasg amhosibl ond fe fyddai *rhoi blas yn unig* o'r hyn y mae Morlan ei hun wedi trefnu yn ffordd o roi cig a gwaed ar 'ffydd a diwylliant.' Nid yw'r enghreifftiau hyn yn cynnwys gweithgareddau mudiadau eraill sy'n defnyddio'r Morlan ag sydd yn bartneriaid â'r Morlan.

Yr Agoriad Swyddogol:

- **Panel Seiat Holi** (a ddarllledwyd ar Radio Cymru) dan gadeiryddiaeth John Roberts, BBC. Panel: Hywel Teifi Edwards, Elin Royles (Adran Wleidyddiaeth y Brifysgol ac ar Fwrdd Rheoli Morlan), y ficer a'r dramodydd Aled Jones Williams, ac Arfon Jones (Gwefan Beibl.net a GIG).
- **Sesiwn yng Ngwesty'r Marine** gyda Chris Sunderland (Agora-space), Dylan Iorwerth a Watcyn James (Cymdeithas y Beibl).
- **John Bell** (Cymuned Iona) ar ei gyntaf o ddau ymweliad a'r Morlan.

Yna ...

- **Arddangosfeydd o ffotograffau, peintiadau a cherfluniau.** Efallai mai arddangosfa o waith y cerflunydd John Meirion Morris ('Y Deyrnas Fewnol ') oedd y fwyaf uchelgeisiol. Bu arddangosfeydd allanol hefyd gan ieuenticid ac artistiaid lleol i dynnu sylw at y sefyllfa ym Mhalesteina, i ddathlu dau gan mlwyddiant dileu masnach caethweision ac i ddathlu'r Nadolig.
- **Dramâu.** Cwmni Riding Lights gyda chyflwyniadau blynyddol ac efallai mai cyflwyniad 2008 (*Salaam Bethlehem*) oedd y fwyaf dirdynnol; Cwmni Cydweithredol Troed y Rhiw; Cwmni'r Morlan (e.e. *Dag* am Ysgrifennydd y Cenhedloedd Unedig); cwmnïau myfyrwyr; Theatr Powys.
- **Digwyddiadau eraill.** Lansio llyfrau; Cofio'r Holocaust; Wythnos Un Byd; Fforwm Cymdeithasol Cymru; Gŵyl Heddwch; gweithgareddau i fyfyrwyr gan Undeb Cristnogol y Myfyrwyr; croesawu myfyrwyr tramor; cynlluniau datblygu canol y dref; cynlluniau adeilad y Cynulliad yn Aber a.y.b.

- **Digwyddiadau cyson.** Grŵp Gwyddoniaeth a Chrefydd (e.e. ymweliad gan John Polkinghorn a John Houghton); Dweud ei Ddweud (e.e. Rhys Llwyd, Robin Chapman, Enid Morgan, Gareth Wyn Jones); Grŵp Aml Ffydd; Clwb Ieuenctid.
- **Yr Ystafell Dawel** sydd yn cael ei defnyddio yn gyson i ymdawelu a myfyrio.

Mae Morlan hefyd yn ystyried fod mudiadau fel Amnest, Grŵp Heddwch, Hafal, Grŵp Cynladwyaeth ac eraill sy'n cyfarfod yn gyson yn y Morlan, yn bartneriaid llawn.

Fe all rhestru fel hyn fod yn ddiflas. Ond mae'n ffordd o gyfeirio at 'dair blynedd o ganolfan ar waith'. Mae lluniau o nifer o'r digwyddiadau hyn o fewn y ddogfen o ddigwyddiadau'r gorffennol sydd ar y wefan, ond nid y cyfan o bell ffordd.

Mae hanes y tair blynedd gyntaf yn hanes byw iawn o dyfu ac o ddatblygu, o wireddu ac o ddenu, o fod yn ganolfan agored i bawb ac sydd bob amser yn cael ei chydnabod oherwydd bod iddi ei nôd a'i chenhadaeth ... canolfan ffydd a diwylliant.

Pryderi Llwyd Jones